


# Rhaglen Mesur Plant Cymru 2016/17

**Tîm cynhyrchu**

Linda Bailey – Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus / Cudd-wybodaeth Iechyd

Ciarán Humphreys – Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth Iechyd

Leon May – Uwch Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Rhys Powell – Uwch Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Hugo Cosh – Prif Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Zoe Strawbridge – Dadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

James Allen – Dadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Lloyd Evans – Uwch Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Megan Luker – Swyddog Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus

Lance Webster – Ridler Webster Cyf

Rhian Huws – Cwmni Cyfieithu Canna

**Echdynnu data**

Gareth John (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)

**Diolchiadau**

Diolch yn fawr i'r teuluoedd a'r plant a gyfrannodd at y rhaglen ac i'r holl staff mewn Byrddau Iechyd sydd wedi cefnogi'r rhaglen ledled Cymru.

# Manylion cyhoeddi

**Teitl:**
Rhaglen Mesur Plant Cymru 2016/17

**Cyhoeddwr:**
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dyddiad:**
19 Ebrill 2018

**ISBN 978-1-910768-46-4**

**I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch:**
childmeasurementprogramme@wales.nhs.uk

**Gwefan:**
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936

© 2018 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/
ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r diwyg yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


Siartiau, tablau a mapiau 4

Cyflwyniad 5

Crynodeb 5


Canlyniadau 6

- Pwysau iach 6
- Pwysau iach neu o dan bwysau 6
- Gordewdra 7
- Amddifadedd 8
- Ethnigrwydd 9
- Dadansoddiad trefol / gwledig 10

Cymhariaeth 11

Cyfranogiad 12

Talfyriadau 13



# Siartiau, tablau a mapiau


| | Tudalen |
|---|---|
| **Ffigur 1 –** Canran y plant 4 i 5 oed sydd o dan bwysau, sydd â phwysau iach, sydd dros bwysau neu'n ordew, 2012/13 – 2016/17 | **5** |
| **Ffigur 2 –** Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, 2016/17 | **7** |
| **Ffigur 3 –** Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, y pumed â'r amddifadedd mwyaf a'r pumed â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru 2016/17 | **9** |
| **Ffigur 4 –** Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew yn ôl grŵp ethnig 2012/13 – 2016/17 | **10** |
| **Ffigur 5 –** Canran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru 2016/17 | **10** |
| **Ffigur 6 –** Canran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru, Lloegr a Rhanbarthau Lloegr, Rhaglen Mesur Plant Cymru a Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (Lloegr) 2016/17 | **11** |
| **Tabl 1 –** Cyfranogiad yn Rhaglen Mesur Plant Cymru ers 2012/13 | **12** |






## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhai o brif ganfyddiadau Rhaglen Mesur Plant Cymru. Mae'r dadansoddiad llawn, yn cynnwys tablau, graffiau a mapiau data ar gael ar wefan Rhaglen Mesur Plant Cymru yn: **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936**

Mae gwybodaeth ynglŷn â hanes y rhaglen a sut y caiff gwybodaeth ei chaslgu a'i dadansoddi hefyd ar gael ar y wefan. Mae'r ddogfen **"Rhaglen Mesur Plant Cymru: hanes, fframwaith deddfwriaethol ac agweddau technegol"** sydd ar gael i'w lawrlwytho yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â mesur mynegai màs y corff, categorïau nifer yr achosion a ddefnyddir yng Nghymru a sut y caiff arwyddocâd ystadegol ei asesu.

Dyma 6ed flwyddyn y rhaglen, fodd bynnag, ni chaiff canlyniadau'r flwyddyn gyntaf eu cynnwys mwyach yn y dadansoddiad a'r drafodaeth, gan nad oedd holl safonau a chanllawiau'r RhMP ar waith pan gymerwyd mesuriadau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae a wnelo'r rhaglen yng Nghymru â mesuriadau plant 4 i 5 oed, sy'n mynychu dosbarth derbyn yng Nghymru, ac sydd â chod post preswyl yng Nghymru.

## Crynodeb

Dangosir canlyniadau cryno'r rhaglen yn Ffigur 1.

Gan fod y rhaglen wedi bod ar waith ers chwe blynedd, efallai ei bod hi bellach yn bosibl canfod tueddiadau. Mae nifer y plant sy'n ordew yn ystadegol arwyddocaol uwch yn 2016/17 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth o ran nifer y plant sy'n ordew rhwng 2016/17 a 2013/14 yn ystadegol arwyddocaol, felly ni ellir cadarnhau tuedd gyffredinol. Nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol ar draws y blynyddoedd o ran nifer y plant sydd â phwysau iach neu sydd dros bwysau.

**Ffigur 1 –** Canran y plant 4 i 5 oed sydd o dan bwysau, sydd â phwysau iach, sydd dros bwysau sy'n ordew, 2012/13 – 2016/17




*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)*



# Canlyniadau

### Pwysau iach

Roedd gan 72.2% o'r plant a fesurwyd yng Nghymru bwysau iach. Mae canran y merched sydd â phwysau iach (72.5%) yn uwch na chanran y bechgyn (71.9%) ond nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol ar lefel genedlaethol, nac ar unrhyw lefel leol.


### Pwysau iach neu o dan bwysau

Canran fach iawn (0.8%) o blant yng Nghymru sy'n cael eu categoreiddio fel plant o dan bwysau. Oherwydd y risg o adnabod unigolion lle mae niferoedd bach o blant dan sylw, caiff y categorïau pwysau iach ac o dan bwysau eu cyfuno mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Ar lefel genedlaethol, roedd gan 72.9% o blant naill ai bwysau iach neu roeddent o dan bwysau. Ceir amrywiad sylweddol ar lefel fwy lleol – roedd 83% o blant ym Mro Morgannwg yn y categori hwn, ond dim ond 67.3% o blant a fesurwyd ym Merthyr Tudful a gafodd eu categoreiddio fel plant â phwysau iach neu o dan bwysau.

## Gordewdra

Yn 2016/17 mae nifer y plant sy'n ordew yn y grŵp oedran hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sy'n 12.4%, mewn dau awdurdod lleol: Merthyr Tudful (17.5%) a Blaenau Gwent (15.1%), ac mae'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol. Mae nifer y plant sy'n ordew yn ystadegol arwyddocaol is na chyfartaledd Cymru mewn tair ardal awdurdod lleol - Caerdydd (10.7%), Bro Morgannwg (7.8%) a Sir Fynwy (8.0%). Mae gwybodaeth ynglŷn â nifer y plant sy'n ordew ar lefel is na lefel awdurdod lleol ar gael ar wefan Rhaglen Mesur Plant Cymru, lle y caiff ei darparu ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA). Y boblogaeth gyfartalog fesul MSOA yw 7,000 o bobl o bob oedran.


**Ffigur 2 –** Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol 2016/17




*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)*

Fodd bynnag, pan gaiff nifer y plant sy'n ordew eu cyfuno ar gyfer y pum mlynedd diwethaf – 2012/13 i 2016/17, mae nifer y plant sy'n ordew yn ystadegol arwyddocaol uwch na chyfartaledd Cymru, sy'n 11.8% (wedi'i gyfuno ar gyfer yr un blynyddoedd) mewn saith awdurdod lleol:-

- Gwynedd – 12.9%
- Sir Benfro – 12.8%
- Sir Gaerfyrddin – 12.8%
- Rhondda Cynon Taf – 13.3%
- Merthyr Tudful – 16.6%
- Caerffili – 12.8%
- Blaenau Gwent – 13.9%





## Amddifadedd

Bob blwyddyn caiff mesuriadau pob plentyn eu dadansoddi yn ôl amddifadedd. Mae 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yng Nghymru, a rhoddir gradd amddifadedd i bob LSOA. Wedyn caiff y sgoriau hyn eu rhannu'n gwintelau (pumedau). Caiff cod post preswylfa'r plentyn ei neilltuo i LSOA. Dangosir y bwlch rhwng nifer y plant sy'n ordew yn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf a'r cwintelau â'r amddifadedd lleiaf yn Ffigur 3. Eleni, mae'n ymddangos bod y bwlch rhwng nifer y plant sy'n ordew yn y cwintelau â'r amddifadedd mwyaf a'r cwintelau â'r amddifadedd lleiaf wedi cynyddu o 4.7% y llynedd i 6.2% eleni. Mae 14.9% o blant sy'n byw yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yn ordew, ac mae hyn yn ystadegol arwyddocaol uwch nag unrhyw un o'r pedwar cwintel arall.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw pob unigolyn sy'n byw mewn ardal a ddosberthir fel ardal o amddifadedd yn byw mewn amgylchiadau difreintiedig. Mae amddifadedd yn fwy amlwg mewn rhai rhannau o Gymru megis Merthyr Tudful, ond mae ardaloedd o amddifadedd ledled y wlad. Yn Sir Fynwy nid oes unrhyw ardal LSOA yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf.

**Ffigur 3 –** Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew, y pumed â'r amddifadedd mwyaf a'r pumed â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, 2016/17




*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS) a WIMD 2014*


Pan gaiff nifer y plant sy'n ordew sy'n byw yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yn ystod y pum mlynedd rhwng 2012/13 a 2016/17 eu cyfuno, mae'r patrwm yn parhau, gydag 13.7% o blant wedi eu categoreiddio'n ordew yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf, ac 8.7% yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf. Unwaith eto, mae'r ffigur o 13.7% ar gyfer y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yn ystadegol arwyddocaol uwch nag unrhyw un o'r pedwar cwintel arall.

## Ethnigrwydd

Mae nifer y plant o darddiad ethnig ar wahân i wyn yn fach yng Nghymru.

Eleni, dim ond 0.6% o blant a fesurwyd y cofnodwyd eu hethnigrwydd fel du. Cofnodwyd ethnigrwydd bron i 80% fel gwyn, a chofnodwyd ethnigrwydd fel 'anhysbys' ar gyfer 15% o blant. Felly, wrth fynd ati i ddadansoddi mesuriadau plant yn ôl ethnigrwydd, gwell fyddai o bosibl cyfuno mesuriadau dros nifer o flynyddoedd, er mwyn darparu canlyniadau mwy cadarn. Dangosir hyn yn ffigur 4, ac fel y gwelir, mae nifer y plant sy'n ordew y cofnodwyd eu hethnigrwydd fel du yn sylweddol uwch na phlant y cofnodwyd eu hethnigrwydd fel gwyn neu anhysbys.

**Ffigur 4 –** Canran y plant 4 i 5 oed sy'n ordew yn ôl grŵp ethnig 2012/13 – 2016/17





*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)*

## Dadansoddiad trefol / gwledig

Dair blynedd yn ôl, dadansoddwyd mesuriadau plant yn ôl a oedd plant yn byw mewn rhannau trefol, gwledig neu wledig iawn o'r wlad. Bryd hynny, nodwyd mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng canrannau'r categorïau pwysau. Dadansoddwyd y mesuriadau eto eleni, gan edrych ar draws dau gategori, sef trefol a gwledig. Unwaith eto, ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd (Ffigur 5). Er bod nifer y plant sydd dros bwysau ac yn ordew wedi'u cyfuno yn ymddangos ychydig yn uwch mewn ardaloedd gwledig, ymddengys fod y cyfraddau goredewdra yn unig ychydig yn uwch mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag nid yw'r gwahaniaethau yn y ddau gategori yn ystadegol arwyddocaol.

**Ffigur 5 –** Canran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru 2016/17





*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS)*


## Cymhariaeth

Mae gan Loegr raglen mesur plant genedlaethol (NCMP), lle y caiff pob plentyn ei bwyso a'i fesur yn y flwyddyn dderbyn. Defnyddir yr un raddfa cyfeirnod twf (UK90) yng Nghymru a Lloegr, felly mae'n bosibl gwneud cymariaethau cadarn rhwng y ddwy wlad. Mae ffigur 6 yn dangos bod nifer y plant sydd dros bwysau ac sy'n ordew yn sylweddol uwch yng Nghymru o gymharu â Lloegr neu unrhyw un o ranbarthau Lloegr. Mae'r un peth yn wir o ran nifer y plant sy'n ordew, ac mae'r ganran o 12.4% yng Nghymru, yn ystadegol arwyddocaol uwch na 9.6% yn Lloegr.

**Ffigur 6 –** Canran y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew, Cymru, Lloegr a Rhanbarthau Lloegr, Rhaglen Mesur Plant Cymru a Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (Lloegr) 2016/17




*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data'r RhMP (NWIS) a data NCMP (HSCIC)*



# Cyfranogiad

Cafodd 94.1% o’r plant yng Nghymru a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglen eu mesur a chafodd eu mesuriadau eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae hyn yn gynnydd bach o ran cyfranogiad o’i gymharu â’r llynedd. Cymerodd 94.6% o ferched a 93.7% o fechgyn ran yn y rhaglen. Ychydig iawn o amrywiad sydd mewn cyfraddau cyfranogi yn ôl cwintel amddifadedd.

Y Bwrdd Iechyd â’r gyfradd gyfranogi uchaf oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chyfradd gyfranogi o 96.6%, a’r bwrdd iechyd â’r gyfradd gyfranogi isaf oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gyda chyfradd gyfranogi o 89.2%. Gan fod Powys yn ardal mor wledig a’r problemau o ran pellter, mae’n bosibl nad yw staff iechyd ysgol yn gallu ymweld ag ysgol eilwaith i gymryd rhagor o fesuriadau. Wrecsam oedd â’r gyfradd gyfranogi uchaf sef 98.6% fesul awdurdod lleol, a Merthyr Tudful oedd â’r gyfradd isaf, sef 84.0%



Bob blwyddyn, cynhelir cyfrifiad o bob ysgol yng Nghymru. Yn 2016/17, cofnodwyd bod 35,592 o blant yn mynychu dosbarthiadau derbyn. Mae gwahaniaeth bach (295) rhwng ffigurau’r cyfrifiad a ffigurau plant sy’n gymwys ar gyfer RhMP, y gellir ei esbonio o bosibl gan y ffaith bod plant sy’n byw yn Lloegr ond sy’n mynychu ysgolion yng Nghymru wedi’u cynnwys yn y cyfrifiad; symudiadau i mewn ac allan o ysgolion; neu amseriad y cyfrifiad a gynhelir ar un diwrnod ym mis Ionawr, ond caiff mesuriadau plant eu cymryd gydol y flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, pan gaiff nifer y plant sy’n cael eu cynnwys yn y rhaglen mesur eu cymharu â’r nifer a gofnodwyd yn y cyfrifiad ysgol, mae’n ymddangos bod cwmpas y RhMP yn dda iawn. Cafodd 129 o blant eu heithrio o’r rhaglen gan eu rhieni

**Tabl 1 –** Cyfranogiad yn Rhaglen Mesur Plant Cymru ers 2012/13


| | Cymwys | Mesurwyd | % Cyfranogiad |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | 34,679 | 29,238 | 84.3% |
| 2013/14 | 33,794 | 30,669 | 90.8% |
| 2014/15 | 34,815 | 32,889 | 94.5% |
| 2015/16 | 35,721 | 33,327 | 93.3% |
| 2016/17 | 35,297 | 33,226 | 94.1% |

*Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data’r RhMP (NWIS)*

# Rhagor o wybodaeth

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o'r dadansoddiad o'r mesuriadau plant a gymerwyd ar gyfer Rhaglen Mesur Plant Cymru. Mae rhagor o wybodaeth gynhwysfawr ar gael ar ffurf siartiau, tablau a mapiau, ar ein gwefan yn **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936**

I gael rhagor o wybodaeth am fynd i'r afael â gordewdra mewn plentyndod ewch i wefan Gwella Iechyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: **http://everychildwales.co.uk/?lang=cy** a dilynwch y ddolen a'r wybodaeth am **"10 cam i bwysau iach".**



## Talfyriadau

| | |
|---|---|
| **BIA** | Bwrdd Iechyd Addysgu |
| **BIP** | Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| **BME** | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| **BMI** | Mynegai Màs y Corff |
| **GIG** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **LSOA** | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| **MALIC** | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| **MSOA** | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol |
| **NCCHD** | Cronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Iechyd Plant Cymunedol |
| **NCMP** | Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol (Lloegr) |
| **NWIS** | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| **RhMP** | Rhaglen Mesur Plant Cymru |
| **UK90** | System cyfeirnod twf a ddefnyddir yn y RhMP |
| **WHO** | Sefydliad Iechyd y Byd |

Rhaglen Mesur Plant Cymru
2016/17

**http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67936**